

## JONES, JOHN ('Jac Glanygors'; 1766 - 1821), goganfardd

**Enw:** John Jones  
**Ffugenw:** Jac Glanygors  
**Dyddiad geni:** 1766  
**Dyddiad marw:** 1821  
**Priod:** Jane Jones (née Mondel)  
**Rhiant:** Margaret Jones  
**Rhiant:** Lawrence Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** goganfardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** David Rowland Hughes

Ganwyd 10 Tachwedd 1766, yn ffermdy Glanygors, ym mhlwyf Cerrig-y-drudion, mab Lawrence a Margaret Jones. Tybir iddo gael ei addysg yn ysgol rad Llanrwst. Treuliodd ei ieuencid yn gweithio ar fferm ei dad. Yn y cyfnod hwn cyfansoddodd amryw o ganeuon serch, a dangosodd fedr ar ganu a'i harweiniodd i ymberffeithio yn ddiweddarach yn ei fywyd ar y math hwn o farddoniaeth. Yn 1789 aeth i Lundain, un ai fel ffoadur oddi wrth y 'pressgang' fel canlyniad ffrwgdw â'r rheithor, neu fel gyrrwr gwartheg. Bu yng ngwasanaeth rhagor nag un cwmni masnachol a gorfu arno dreulio rhai misoedd yng Nghymru oherwydd afiechyd, ond yn 1793 yr oedd yn rheolwr neu berchennog y Canterbury Arms, Southwark. Coleddai syniadau Tom Paine ar gwestiynau yn dwyn cysylltiad â hawliau dyn, a gwrthwynebai freniniaethau a rhyfel a gormes gan lywodraeth ac eglwys. Cyhoeddodd ei syniadau mewn dau bamffledyn - **Seren Tan Gwmmwl** , 1795, a **Toriad y Dydd** , 1797 - a dioddefodd beth erledigaeth o'r herwydd.

Cymerodd ran amlwg ym mywyd Cymreig Llundain ac ymaelododd â Chymdeithas y Gwyneddigion o fewn blwyddyn ar ôl iddo gyrraedd Llundain. Bu'n is-lywydd y gymdeithas ddwywaith, yn fardd iddi am bum mlynedd, ac yn ysgrifennydd bedair gwaith, ond ni fodlonai ymgymryd â'r llywyddiaeth. Ef a **Thomas Roberts**, Llwyn'rhudol, ac eraill a sefydlodd Gymdeithas y Cymreigyddion yn 1795, a bu ganddo ran hefyd yn ailgyfodi'r Cymmrodorion yn 1820.

Priododd yn eglwys y plwyf, Bermondsey, 23 Gorffennaf 1816, Jane Mondel o Whitehaven. Ardrethodd dafarn y ' King's Head ' yn Ludgate Street yn 1818, ac o hynny hyd ei farwolaeth yn 1821 bu ei gartref yn gyrchfan i'r Cymry. Nid oes gofnod swyddogol i'r Gwyneddigion gyfarfod yn y ' King's Head,' ac ni bu'r Cymreigyddion yno ond am dri mis. Cofir John Jones yn bennaf oherwydd ei ddychangerddi, ac erys rhai ohonynt hyd heddiw ar lafar gwlad.

Bu farw 21 Mai 1821 a chladdwyd ef yn eglwys fechan S. Gregory ger S. Paul, sydd bellach yn rhan o'r eglwys gadeiriol fawr.

### Awdur

**David Rowland Hughes**, (1874 - 1953)

### Ffynonellau

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1909-10, 60-94

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 23, 25-6, 44, 61, 102-5

T. Mordaf Pierce, *Dr. W. Owen Pughe* (Caernarfon 1914)

*Gwaith Glan y Gors* (1905), 'Cyfres y Fil'

*Seren tan Gwmmwl a Thoriad y Dydd* (Lerpwl 1923)

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1938, 227-37; 1939, 73, 218

*Y Cymmrodor*, 1951

### Darllen Pellach

E. G. Millward, *Cerddi Jac Glan-y-Gors* (Abertawe 2003)

Erthygl Wicipedia: **John Jones**

## Delweddau

LIGC: John Jones (Jac Glanygors)

## Gweithiau

John Jones, Dic Sion Dafydd

William Thomas, *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol* (Caerfyrddin 1851), tt.11-28

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MS 23942B: Barddoniaeth John Jones, Glanygors

VIAF: 2339659

Wikidata: Q3402110

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Hughes, D. R., (1953). JONES, JOHN ('Jac Glanygors'; 1766 - 1821), goganfardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-JOH-1766>

Delweddau

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LIGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Nodi gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government